Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amrywiad Contract Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## Canllaw Sut i Lenwi

Medi 2022

Paratowy y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo awdurdodau lleol i gwblhau y cais FCERM.

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â changen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at:**Floodcoastalrisk@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG45941 ISBN digidol 978-1-80364-787-6

# Amrywiad Contract Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## Canllaw Sut i Lenwi

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i gwblhau eich Amrywiad Contract Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu’r canllaw yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.


Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

**Cynnwys**


| Pwnc | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan | 6 |
| Y Dudalen Ffurflenni | 6 |
| Amrywiad Contract Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Tudalen Dethol | 7 |
| Dechrau arni | 7 |
| Parhau â’r Cais | 8 |
| Tudalen Gyflwyno | 8 |
| Hysbysiad Preifatrwydd | 9 |
| Manylion y Prosiect Amrywiad Cynllun | 10 |
| Proffil Cyflawni | 11 |
| Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb | 13 |
| Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau | 14 |
| Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno | 15 |

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan

Mewngofnodwch ar eich Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.

### Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan

I gael mynediad i'r cais Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch y Tab wedi'i labelu 'Ffurflenni' ar sgrin gartref RPW Ar-lein, fel y dangosir isod.





I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm ar frig y sgrin, ar y dde i'r wybodaeth am RPW Ar-lein. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr iaith y caiff eich cais Amrywiad Contract Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei arddangos ynddo.

### Y Dudalen Ffurflenni


Ar ôl i chi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.

Dewiswch yr Amrywiad Contract Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol o'r rhestr




## Tudalen Dewis

Mae’r rhestr o gontractau sydd ar gael i chi ddechrau neu barhau ag amrywiadau ar eu cyfer wedi’u rhestru ar y Dudalen Ddethol.  Cliwich ar Dechrau Cais neu Parhau â’r Cais





## Dechrau arni

Ar ôl darllen y Llawlyfr Rheolau, cliciwch y botwm Dechrau i ddechrau'ch cais dewiswch y prosiect o’r gwymplen ac yna cliciwch ar y Botwm Dechrau.




## Parhau â Chais

Os ydych yn dewis Parhau â’r Cais o’r Dudalen Dethol, cliciwch ar Parhau i fynd ymlaen gyda cais sydd eisoes wedi’i ddechrau.




## Cyflwyniad


Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n rhoi gwybodaeth am yr Amrywiad Contract Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.




Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Dyma'r hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid i chi ei ddarllen.




Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.

**Manylion y Prosiect Amrywiad Cynllun**


Rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.

Bydd manylion y Prosiect yn cael ei lenwi'n awtomatig.


Dewiswch yr amrywiad rydych chi'n ei wneud, dewiswch bopeth sy'n berthnasol.

Bydd blychau testun yn ymddangos i chi gwblhau manylion yr amrywiad.

Sicrhewch eich bod yn darparu esboniadau manwl o'r rhesymau dros y cynnydd mewn costau neu estyniad amser yn ogystal â sut rydych yn lliniaru'r sefyllfa yn erbyn cynnydd/estyniadau pellach.  Peidiwch â chwblhau'r amrywiadau "eraill" heb drafod ymlaen llaw â Changen FCERM Llywodraeth Cymru




Mae'r system yn archwilio data sylfaenol sydd wedi'u cynnwys o fewn y ffurflen hon a bydd negeseuon gwall neu wybodaeth yn ymddangos wedi ichi glicio 'Safio' neu 'Nesaf.





Ar ôl i chi gywiro unrhyw wallau ac ateb yr holl gwestiynau ar bob tudalen, cliciwch ar y Botwm Nesaf.


## Proffil Cyflawni

Bydd swm y grant sy'n weddill ar gyfer y Proffil Cyflawni yn cael ei lenwi ymlaen llaw, mae hyn yn ystyried unrhyw hawliadau a wnaed.


Cliciwch ar y botwm Ychwanegu Cyfnod Hawlio i ychwanegu'r gwerth ar gyfer pob cyfnod hawlio rydych chi'n disgwyl gwneud hawliad ynddo.




Unwaith y byddwch wedi clicio ar y botwm Ychwanegu Cyfnod Hawlio bydd y sgrin i ychwanegu'r cyfnod hawlio a rhagweld gwariant yn arddangos





Dewiswch y cyfnod hawlio o'r gwymplen a nodwch y grant rhagolwg sy'n cael ei dynnu i lawr (gan ystyried cyfradd grant lle bo hynny'n briodol)





I ychwanegu cyfnod hawlio arall cliciwch ar Safio ac Ychwanegu Arall, unwaith y bydd pob cyfnod hawlio a rhagolygon gwariant wedi'u nodi cliciwch ar Safio a Dychwelyd i ddychwelyd i'r dudalen Cyflawni Prosiect. Peidiwch nodi hawliadau wedi'r dyddiad cwblhau, neu'r dyddiad cwblhau newydd yn achos yr estyniad amser.

Unwaith y bydd pob cyfnod hawlio a gwerthoedd yr hawliad grant a ragwelir wedi'u nodi bydd rhestr yn ymddangos ar y dudalen Proffil Cyflawni, cewch newid neu ddileu unrhyw un o'r cyfnodau hawlio drwy glicio ar y botymau Newid neu Dileu.




## Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu o unrhyw gamgymeriadau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.




Unwaith y bydd unrhyw wallau wedi'u cywiro, bydd tic gwyrdd yn cael ei arddangos ar bob adran





## Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â nhw.



## Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno


I gyflwyno'ch Amrywiad Contract Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch ar y Botwm Cyflwyno.




Ar ôl cyflwyno'r cais, byddwch yn cael cadarnhad y gallwch ei brintio a'i roi yn eich ffeiliau.

Gallwch hefyd gyflwyno dogfennau nawr drwy glicio ar y botwm Cyflwyno Dogfennau, neu adael y cais.  Cofiwch gyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich cais am amrywiad, yn enwedig pan fydd hwn yn amrywiad cost, rhowch dystiolaeth o’r cynnydd yn y costau.

Unwaith y bydd y cais wedi'i gyflwyno gallwch ddechrau cais newydd.



Bydd crynodeb o'ch Amrywiad Contract Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau Taliadau Gwledig Cymru wedi dod i law ". Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y neges gan esbonio eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.